Cyflwyno Newid Hinsawdd: Ddoe, Heddiw, ac Yfory

Gweithgaredd 3: Effaith tŷ gwydr mewn jar

Oed: 8–11

Nod
Helpu disgyblion i ddeall effaith tŷ gwydr.

Bydd angen
- Diwrnod heulog
- Dau thermomedr bach
- Jar gwydr mawr clir

Beth i'w wneud
Gofynnwch i grwpiau o ddisgyblion osod dau thermomedr ochr yn ochr ar yr un math o arwynebedd yn yr awyr agored. Yna dylid gosod y jar mawr dros un thermomedr. Eglurwch mai dyma'r tŷ gwydr.

Dylai'r grwpiau gymryd a chofnodi'r darlleniadau o'r ddau thermomedr ar unwaith; eto ar ôl 30 munud ac eto ar ôl awr.

Trafodwch pa wahaniaeth mewn tymheredd, os o gwbl, sydd rhwng y ddau thermomedr. Edrychwch eto ar yr hyn a ddysgodd y disgyblion yn sesiwn y bore: eglurwch fod nwyon megis carbon deuocsid ag effaith debyg i'r jar gwydr ar y byd. Dyna'r rheswm dros y term 'effaith tŷ gwydr'. Mae'r effaith tŷ gwydr yn bwysig i ni, gan ei fod wedi gwneud y Ddaear yn ddigon cynnes i gynnal bywyd. Bellach, fodd bynnag, mae gweithredoedd dyn yn gwneud yr haen o 'nwyon tŷ gwydr' yn fwy trwchus, felly mae'r Ddaear yn cynhesu.

Ffynhonnell: (Mae'r gweithgaredd hwn wedi'i seilio ar un 'Climate Chaos' (WWF 2005), y gellir ei lwytho i lawr oddi ar http://www.wwflearning.org.uk/wwflearning-home/resource-centre).

Hawlfraint © Oxfam GB. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgiadol yn unig.